OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 1385

# Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009

## RHAN II

Aelodaeth

**Atal cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol o'u swyddi**

**11.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru atal penodai rhag cyflawni swyddogaethau'r penodai fel cadeirydd neu gyfarwyddwr tra bydd Gweinidogion Cymru'n ystyried—

(a) p'un ai i symud y person o'r swydd o dan reoliad 10(3) neu (7); neu

(b) p'un a yw'r person wedi ei ddatgymhwyso rhag cael ei benodi o dan reoliad 15, neu p'un a oedd wedi ei ddatgymhwyso felly ar yr adeg y'i penodwyd.

(2) Bydd Gweinidogion Cymru'n hysbysu person a gafodd ei atal o dan baragraff (1) o'r penderfyniad i'w atal, a bydd y penderfyniad yn dod yn effeithiol pan ddaw'r cyfryw hysbysiad i law.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4) a (5), ni fydd cyfnod atal o swydd o dan baragraff (1) yn fwy na chwe mis.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru adolygu ataliad ar unrhyw adeg a byddant yn adolygu ataliad ar ôl tri mis os gofynnir iddynt wneud hynny gan y sawl a gafodd ei atal.

(5) Pan fyddant yn adolygu ataliad, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) dirymu'r ataliad, ac yn y cyfryw achos bydd yr ataliad yn peidio â bod yn effeithiol; neu

(b) atal y penodai rhag cyflawni swyddogaethau'r penodai fel cadeirydd neu gyfarwyddwr am gyfnod o ddim mwy na chwe mis o'r dyddiad y daw'r cyfnod atal presennol i ben.